

Prifysgol Bangor
COFNODION PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL

Cyfarfod: 20 Tachwedd 2020

Presennol: Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mrs T Hibbert, Mr A Jones, Dr J Latchford, Yr Athro P Mullins, Dr K Mundy, Mrs R Parry, Miss E Riches, Dr H Roberts, Mrs J Roberts, Dr G Robinson, Ms M Rowlands, Mr L Wiegand, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

Nodyn Cyn y Cyfarfod: Adroddodd y Cadeirydd fod aelodau'r Cyngor wedi bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am iechyd a diogelwch a threfniadau lliniaru Covid-19 a'u bod yn naturiol bryderus ynghylch sut y byddai'r Brifysgol yn gallu gweithredu'n ddiogel. Fodd bynnag, erbyn hyn, gall y Cyngor fod â sicrwydd, a lefel uchel o hyder, mewn perthynas â threfniadau iechyd a diogelwch a mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad mawr o'r gwaith sydd wedi'i wneud gan yr holl staff o dan amodau heriol.

Mynegwyd gwerthfawrogiad arbennig i'r Tîm Iechyd a Diogelwch a'r Gwasanaethau Eiddo a Champws.

Cafwyd trafodaeth a daethpwyd i'r consensws:

- i. Bod y Brifysgol yn gwneud gwaith eithriadol, gan gynnwys o gymharu â llawer o sefydliadau eraill, i ddarparu'r profiad addysgu gorau posibl wrth sicrhau iechyd a diogelwch staff a myfyrwyr.
- ii. **Bod y Brifysgol wedi llwyddo i ddarparu'n llwyddiannus ar gyfer dymuniadau gwahanol iawn ymhlith staff - y rhai sy'n poeni am addysgu wyneb yn wyneb yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno dychwelyd i barhau ag ymchwil. Mae staff wedi gwerthfawrogi'r dull hwn o beidio â thrin pawb yn un fath.**
- iii. Yn gyffredinol, bod y myfyrwyr yn ymwybodol ac yn gwerthfawrogi lefel y gwaith sydd ei angen i ddarparu dysgu cyfunol, profiadau ar y campws a mathau eraill o weithgareddau megis gwaith maes.

Ymddiheuriadau: Mr T Williams, Yr Athro P Spencer, Mr W Jones, Mr H Williams, Mr M Williams, Mr H Ellis

588. Cofnodion

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 6 Gorffennaf 2020.

589. Materion yn Codi

Nodwyd y materion canlynol:

- i. *583 (i) Ystadegau:* Mae Adnoddau Dynol wedi atgoffa staff i adrodd am absenoldebau salwch fel arfer, hyd yn oed wrth weithio gartref.
- ii. *586. Gweithio Gartref yn ystod Pandemig COVID-19* Nodwyd bod Polisi Gweithio Gartref dros dro, a gynhyrchwyd gan yr adran Adnoddau Dynol, ac Asesiad Risg Gweithio Gartref ategol, a gynhyrchwyd gan yr adran Iechyd a Diogelwch, ar waith. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar-lein ar dudalennau gwe Covid-19 i staff.

Bydd y maes hwn yn cael ei fonitro, yn enwedig mewn perthynas â phwysau a straen gweithio gartref.

590. Adroddiad gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod bedair gwaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Ym mis Medi symudodd y Brifysgol tuag at ddull 'busnes fel arfer, cyn belled ag y bo'n rhesymol' gan drafod materion Covid yn y strwythur cyfarfodydd a fodolai cyn Covid.
- ii. Mae cyfarfodydd arbennig i drafod materion penodol yn cael eu cynnal, er enghraifft, profion Covid-19 ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd adref ar ddiwedd y tymor.
- iii. Mae Asesiad Risg Covid-19 y Brifysgol yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- iv. Mae gweithgareddau'n cael eu categoreiddio'n rhai Gwyrdd, Oren a Choch.
- v. Mae Polisi Gorchuddion Wyneb bellach ar waith gan y Brifysgol.
- vi. I gydnabod y ffaith bod teithio mewn grŵp yn creu risg trosglwyddo uchel, mae defnyddio bysiau mini wedi ei wahardd. Mae teithio ar fsys moethus, a ddosbarthwyd i ddechrau fel gweithgaredd Oren, o ostwng niferoedd yn sylweddol, bellach naill ai yn weithgaredd Gwyrdd neu Goch, yn dibynnu ar niferoedd.
- vii. Yn dilyn cytundeb yn y Pwyllgor Gweithredu bod yn rhaid i bob gweithgaredd Coch gael ei gymeradwyo gan Ddirprwy Is-ganghellor / Pennaeth Coleg a'r Grŵp Tasg, cynhaliwyd sawl trafodaeth ynghylch gweithgareddau addysgu ac ymchwil Coch mewn Ysgolion.
- viii. Mae archwiliad mewnol ar weithio gartref a dychwelyd i'r campws wedi rhoi sicrwydd bod trefniadau addas ar waith. Mae rhai mân argymhellion yn cael sylw ar hyn o bryd.
- ix. Mae'r Grŵp Tasg wedi penderfynu na all y Brifysgol ar hyn o bryd ganiatáu i gyfleusterau'r Brifysgol gael eu defnyddio gan dimau sy'n chwarae oddi cartref.
- x. Nododd archwiliad gan RSM nad oedd Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn cyfeirio'n benodol at glefydau pandemig a sut y byddai'r Brifysgol yn ymateb ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i liniaru risgiau. Ystyriwyd a chytunwyd ar newid i Ddatganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, sef:

xvii. Ymateb i unrhyw bandemig neu epidemig a rhoi systemau, trefniadau a chamau rheoli addas ar waith i liniaru a rheoli risg ac i ddiogelu iechyd a lles staff a myfyrwyr.

Bydd y newid nawr yn cael ei ystyried gan Gyngor y Brifysgol.

591. Adroddiad Covid-19

Darparwyd crynodeb o'r gwaith a wnaethpwyd i liniaru risgiau Covid-19 ac i sicrhau iechyd a diogelwch staff a myfyrwyr. Nodwyd y canlynol:

- i. Wrth gynllunio i ailagor cyfeiriodd y Brifysgol at gyngor deddfwriaethol, gyda gofynion deddfwriaethol wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Rhoddir pwyslais ar gadw pellter cymdeithasol, diheintio dwylo'n drylwyr a bod yn ymwybodol o'r hyn y mae angen i unigolion ei wneud i gadw'n ddiogel.
- ii. Ers mis Mawrth mae llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau bod trefniadau addas ar waith i reoli risg, gyda gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i wella ar y trefniadau hynny. Mae peth o'r gwaith hyd yma wedi cynnwys gosod 1km o sgriniau Perspex, gosod 3000 o strapiau seddi mewn darlithfeydd, tynnu 3100 o gadeiriau, gosod 9000 o bosteri, darparu oddeutu 6000 litr o gel / ewyn diheintio dwylo.
- iii. Mae'r holl drefniadau'n ddarostyngedig i Asesiad Risg Covid-19 sy'n cael ei fonitro gan Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gweithgareddau cyfredol y Brifysgol a gofynion deddfwriaethol.
- iv. Mae archwiliadau ac ymweliadau safle'n parhau i geisio sicrwydd bod y trefniadau'n gweithio.
- v. Mae ysgolion wedi gweithredu trefniadau lleol, cadarn er mwyn gallu ymgymryd â gweithgareddau'n ddiogel.
- vi. Ers mis Medi mae'r Brifysgol wedi bod â Chyfleuster Profi Myfyrwyr ar y safle gyda chefnogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Hysbysir y Brifysgol cyn gynted ag y bydd myfyriwr yn mynd am brawf a chawn wybod am unrhyw ganlyniadau positif am Covid-19. Mae hyn yn galluogi'r Brifysgol i nodi cysylltiadau posibl ac ymateb yn briodol e.e. gofyn i fflat cyfan mewn neuadd breswyl hunanynysu.
- vii. **Er mwyn cefnogi'r ymgyrch Profi, Olrhain ac Amddiffyn, mae'r ap presenoldeb Yma! wedi'i ddatblygu i gofnodi gweithgareddau eraill y mae myfyrwyr yn cymryd rhan ynddynt yn y Brifysgol.**

591(a)

Data Covid-19

Darparwyd crynodeb o'r data Covid-19 sydd ar gael i'r Brifysgol:

- i. Mae'r system yn caniatáu i'r Brifysgol olrhain achosion Covid-19+.
- ii. Yn ystod wythnos gyntaf y tymor roedd 3 achos Covid-19+ gan godi i 49 achos erbyn 1 Hydref. Roedd y patrwm yn debyg i'r patrwm mewn sefydliadau eraill gyda myfyrwyr yn cyrraedd o rywle arall ac yn dod â Covid-19 gyda nhw.
- iii. Erbyn 9 Hydref roedd 163 o achosion o Covid-19+, ond bu gostyngiad yr un mor gyflym gyda dim ond 1 achos newydd erbyn 15 Hydref.
- iv. Mae datblygu'r ap Yma! i gofnodi presenoldeb myfyrwyr mewn digwyddiadau eraill yn y Brifysgol wedi bod yn hanfodol wrth helpu i olrhain cysylltiadau posibl i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i atal y feirws rhag lledaenu.
- v. Ar 20 Tachwedd, roedd 259 achos o Covid-19+ wedi eu cofnodi ers dechrau'r Flwyddyn Academaidd gydag un achos cyfredol o Covid-19+ mewn neuadd breswyl a 5 achos yn ardal Bangor.

- vi. Mae niferoedd yr achosion ymhlith staff wedi bod yn isel ac nid yw'r achosion a gafwyd yn gysylltiedig yn benodol â gweithgareddau'r Brifysgol.
- vii. Mae system effeithlon iawn ar waith rhwng y Brifysgol, awdurdodau lleol a'r ymgyrch Profi ac Orlhain i ddal achosion positif a chysylltiadau positif.
- viii. **Mae Undeb y Myfyrwyr yn hwyluso sesiynau i addysgu myfyrwyr a'u hannog i ymddwyn yn ddiogel.**

592.

Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch

Trafodwyd crynodeb o Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2019/2020, a ddisbarthwyd yn flaenorol, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- i. **Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Mynychu Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Cyffredinol a drefnwyd yn ganolog:** cymerodd 221 aelod o staff ran mewn hyfforddiant iechyd a diogelwch canolog yn ystod y flwyddyn.
- ii. **Dangosyddion Perfformiad Allweddol Hyfforddiant:** Methwyd targed 2019/20 gan 47%. Cwblhaodd 63 allan o 145 aelod newydd o staff (cymwys) dan gontract sesiwn gynefino gyffredinol i staff y brifysgol. Bydd y targed ar gyfer 2020/2021 yn aros ar 90%.
- iii. **Hyfforddiant i Ddefnyddwyr Cyfrifiaduron:** cwblhaodd 226 aelod o staff hyfforddiant ar-lein i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (gan ddod â'r cyfanswm sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant i 82.96% o holl ddefnyddwyr cyfrifiaduron). Mae'r ffigur hwn yn gynydd o 2.4% ar gyfanswm y llynedd o 81%, ond roedd yn is na'r targed o 85%, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau gweithio Covid-19.
- iv. **Damweiniau a Digwyddiadau:** Cafwyd adroddiadau am 29 (56 yn 18/19) damwain a achosodd anaf i staff a myfyrwyr (23 i staff a 6 i fyfyrwyr). Mae cyfraddau damweiniau a digwyddiadau wedi gostwng yn sylweddol oherwydd bod llawer o weithgareddau ar y safle wedi dod i ben oherwydd y cyfnod clo.
- v. **Digwyddiadau a achosodd golli amser o'r gwaith:** Ni chafwyd unrhyw adroddiad am anaf a achosodd golli amser o'r gwaith.
- vi. **Adroddiad am ddigwyddiadau na achosodd anafiadau:** Cafwyd adroddiad am 101 digwyddiad na achosodd anafiadau. Roedd 76 yn ymwneud â damwain y bu bron iddi â digwydd, sefyllfa beryglus neu arferion annïogel, tra oedd yr 25 arall yn adroddiadau am ddigwyddiadau meddygol (megis llewygu, salwch a chonfylsiynau).
- vii. **Teithio Dramor:** Bu gostyngiad sylweddol mewn teithiau ers i deithio ddod i ben ym mis Mawrth. Pan ddechreuodd Covid-19, gofynnodd 10 aelod o staff a myfyrwyr am gefnogaeth y Brifysgol i ddychwelyd, tra dewisodd 22 o fyfyrwyr aros dramor.
- viii. **Digwyddiadau'n ymwneud â cherbydau:** Cafwyd 2 hawliad am ddamweiniau'n ymwneud â cherbydau; roedd un am fân ddifrod i flaen cerbyd a arweiniodd at gost o £620 a'r hawliad llall am ddifrod ychydig yn fwy sylweddol i ochr cerbyd aml-ddefnydd mawr, gyda chost o £2,470.

- ix. **Arolygiadau safle:** Bu gostyngiad yn nifer yr arolygiadau iechyd a diogelwch mewnlol ar waith adeiladu / cynnal a chadw i 74, o gymharu â 189 yn y flwyddyn flaenorol. Dangosodd canfyddiadau'r arolygiadau hynny a gynhaliwyd gynnydd bach yn y rhybuddion a gyhoeddwyd.
- x. **Absenoldeb Salwch:** Rhoddwyd gwybod am gyfradd absenoldeb salwch staff o 3.96 diwrnod i bob gweithiwr CALI (5.47 diwrnod yn 2018/19). Roedd hyn yn cyfateb i 1.82% o amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch (6,293 diwrnod gwaith). Roedd absenoldebau tymor hir, rhai dros 20 diwrnod, yn cyfrif am 56.7% o gyfanswm y diwrnodau gwaith.
- xi. **Gwyliaidwriaeth Iechyd:** Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau a oedd yn cael effaith niweidiol ar iechyd yn 19/20.
- xii. **Larymau Tân yn Canu:** Cafwyd 73 achos o larymau tân yn canu yn adeiladau'r Brifysgol (32 mewn adeiladau academiaidd/gweinyddol a 41 mewn neuaddau preswyl), gostyngiad o 24% ar y 96 yn 18/19. Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r Brifysgol ar 18 achlysur oherwydd galwad tân, 17 o'r rhain i neuaddau preswyl. Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd i'r neuaddau gael eu gwagio i raddau helaeth ym mis Mawrth o ganlyniad i Covid-19.
- xiii. **Tanau:** Cafwyd un tân, ac er nad oedd mewn adeilad roedd ar dir y Brifysgol. Roedd o ganlyniad i weithred faleisus lle cafodd eitemau o ddillad a dillad gwely eu rhoi ar dân.
- xiv. **Achosion sifil i hawlio iawndal:** Cafwyd un Hawliad Atebolrwydd Cyflogwr gan gyn aelod staff a phedwar hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus am lithro ar lawr gwlyb, hawliad project Ymchwil a difrod i gerbydau (x2) oherwydd bod system bolard awtomatig ddim yn gweithio'n iawn yn M-SParc.
- xv. Cafwyd trafodaeth a nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i wella systemau i gofnodi bod staff wedi mynychu sesiynau cynefino. Yn ogystal, gwnaed arsylwadau y gallai adrodd am salwch ac absenoldeb salwch fod wedi gostwng o ganlyniad i weithio gartref a gallu gweithio i ryw raddau hyd yn oed os yw rhywun yn teimlo'n sâl.

593.

Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Trafodwyd y broses y mae'r pwyllgor yn ei dilyn i sicrhau ei effeithiolrwydd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gadarnhau a oeddent yn teimlo bod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn effeithiol ac wedi'i rymuso i herio agweddau ar iechyd a diogelwch, gan godi ymwybyddiaeth y Cyngor yn ei dro.

Yn dilyn trafodaeth, cadarnhaodd yr aelodau fod y Pwyllgor yn effeithiol ac wedi'i rymuso.

594.

Trefniadau ar gyfer Profi Myfyrwyr yn Dorfol, Covid-19

Darparwyd crynodeb o'r gwaith i gefnogi myfyrwyr sy'n dychwelyd adref dros y Nadolig. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Ym mis Hydref dechreuodd y Brifysgol gynllunio ar gyfer ymadawiad y myfyrwyr dros y Nadolig gan gydnabod y gallai'r hyn a ddigwyddodd ar ddechrau'r flwyddyn

academaidd wrth i fyfyrwyr gyrraedd ddigwydd i'r gwrthwyneb gyda myfyrwyr yn trosglwyddo'r feirws i'w cymunedau eu hunain.

- ii. I ddechrau, ceisiodd y Brifysgol adnabod myfyrwyr 'mewn perygl' (h.y. y rhai sy'n mynd adref at bobl fregus) a dechreuodd gwaith paratoi, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i alluogi myfyrwyr o'r fath i gael profion asymptomatig.
- iii. Yn dilyn hynny, yn ystod y 10 diwrnod diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai profi torfol yn cael ei ddarparu i fyfyrwyr sy'n dychwelyd adref. Mae hon yn fenter sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'i hwyluso gan Deloittes lle mae pob prifysgol sy'n rhan o'r cynllun yn cytuno i hwyluso profi myfyrwyr yn dorfol cyn iddynt dychwelyd adref.
- iv. Ym Mangor, bydd y gwaith o brofi myfyrwyr yn dechrau ar 30 Tachwedd ac yn para tan 8 Rhagfyr yn Neuadd PJ. Defnyddir Dyfais Llif Unffordd (sy'n rhoi canlyniad cyflym). O ddydd Llun 23 Tachwedd ymlaen, bydd myfyrwyr yn gallu defnyddio'r system i archebu prawf, gan gael dau brawf yn ddelfrydol (gan nad yw'r broses llif unffordd yn canfod symptomau cynnar) cyn gadael.
- v. Bydd profion asymptomatig hefyd ar gael i staff.
- vi. O 4 Rhagfyr bydd y rhan fwyaf o gyrsiau'n troi at addysgu ar-lein yn unig.
- vii. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Thrafnidiaeth Cymru i asesu patrymau teithio myfyrwyr er mwyn annog myfyrwyr i deithio adref ar gyfnodau gwahanol i'w gilydd.

595.

Unrhyw Fater Arall

- i. Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a fu'n ymwneud â pharatoi ar gyfer y cyfarfod.

Trefnwyd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch fel a ganlyn:

10 Mawrth 2021, 2pm, Ystafell Gynhadledd 3, Y Teras

2 Mehefin 2021, 2pm, Ystafell Gynhadledd 3, Y Teras

Yn ychwanegol at argymhelliad yr Archwiliad Mewnol gan RSM y bydd “Rheolwyr yn adolygu, yn diweddar ac yn cymeradwyo’r Polisi Iechyd a Diogelwch o ystyried y newidiadau sylweddol diweddar yng ngoleuni pandemig Covid-19, gweithio gartref a dychwelyd i’r campws, fel y nodir yn y datganiad Adolygu Polisi yn adran 23 o’r Polisi Iechyd a Diogelwch” argymhellir yr ychwanegiad canlynol ar gyfer Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol (gweler pwynt xvii).

1.0 DATGANIAD CYFFREDINOL O BOLISI IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL

- 1.1** Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo’n ymarferol bosib, ond yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol, gofynion statudol ac arfer da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i’r brifysgol.
- 1.2** Mae’r datganiad hwn yn nodi ymrwymiad llawn y Cyngor ac uwch reolwyr y Brifysgol i weithredu’r polisi hwn, rhoi arweinyddiaeth ym maes iechyd a diogelwch a sicrhau y rhoddir ystyriaeth a chefnogaeth briodol i ddarpariaethau iechyd a diogelwch, fel bo’n briodol.
- 1.3** Yn ymarferol, mae’r cyfrifoldeb am sicrhau bod unrhyw weithgaredd yn cael ei gyflawni’n ddiogel yn gorffwys ar y rhai sydd â rheolaeth, goruchwyliaeth neu reolaeth drosto, neu sy’n ei drefnu a’i gyfarwyddo, yn ogystal â’r rhai sy’n ei gyflawni. Mae’n rhaid i bawb roi ystyriaeth i iechyd a diogelwch a phwysigrwydd cynnal safonau priodol.
- 1.4** Mae’r Brifysgol yn ystyried bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn ymwneud â rheoli risg ac nid o angenrheidrwydd â dileu risg. Eu diben yw nid rhwystro gweithgareddau ar y sail bod elfen o risg yn bodoli, ond galluogi i weithgareddau gael eu cynnal mewn ffordd resymol a diogel.
- 1.5** Mae’r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i’r canlynol, cyn belled ag y mae’n ymarferol resymol:
 - i. Sicrhau y rhwystrir anaf ac amhariad iechyd i bawb y mae ei gweithgareddau’n effeithio arnynt;
 - ii. Cyflawni a chynnal arfer dda mewn iechyd a diogelwch;
 - iii. Hyrwyddo ymddygiad a diwylliant cadarnhaol o ran iechyd a diogelwch;
 - iv. Anelu at welliant parhaus mewn perfformiad iechyd a diogelwch drwodd a thro;
 - v. Galluogi a hyrwyddo cynwysoldeb a diogelu’r rhai ag anghenion ychwanegol.
- 1.6** I gyflawni’r ymrwymadau hyn, dyma yw amcanion y Brifysgol:
 - i. Hyrwyddo defnyddio dulliau gweithredu iechyd a diogelwch da mewn gweithgareddau a systemau rheolaethol presennol ac arfaethedig;
 - ii. Rhoi adnoddau priodol i reoli iechyd a diogelwch, a gweithredu’r Datganiad Polisi hwn, drwy ddarparu staff digonol, cefnogaeth, cymorth arbenigol, cyngor medrus, amser a chyllid;
 - iii. Cyfnerthu’r Polisi hwn gyda Safonau Polisi, systemau rheoli a gwybodaeth fanylach ar beryglon a risgiau neilltuol;
 - iv. Darparu a chynnal adeiladau ac offer a weithredir heb unrhyw risg o bwys i iechyd a diogelwch;

- v. Nodi peryglon a all godi drwy weithgareddau'r Brifysgol, asesu'r risgiau sy'n codi a gweithredu mesurau rheoli effeithiol i ddileu, lleihau neu reoli unrhyw risgiau o bwys, a thrwy hynny alluogi'r gweithgareddau i gael eu cyflawni'n ddiogel;
- vi. Gweithredu systemau gweithio'n ddiogel sy'n dileu neu reoli holl beryglon o bwys a risgiau i iechyd a diogelwch;
- vii. Darparu unrhyw wybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth fel bo'r angen i sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac eraill;
- viii. Gweithredu trefn fonitro ac archwilio i sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei reoli'n effeithiol ledled y Brifysgol;
- ix. Ymgynghori a gweithio â staff a chynrychiolwyr staff ar faterion iechyd a diogelwch;
- x. Annog staff i osod safonau iechyd a diogelwch da trwy esiampl bersonol;
- xi. Gwneud trefniadau i rannu gwybodaeth berthnasol, cydlynu polisi ac ymarfer a chydweithredu â chyflogwyr neu sefydliadau eraill lle mae staff neu fyfyrwyr y Brifysgol yn rhannu adeiladau neu gyfleusterau â hwy, a lle mae staff eraill a chontractwyr yn gweithio ar eiddo'r Brifysgol;
- xii. Monitro sefyllfa iechyd a diogelwch gyffredinol y Brifysgol drwy Broffil Risg Iechyd a Diogelwch a gaiff ei adolygu'n rheolaidd a'i gyhoeddi'n flynyddol;
- xiii. Cloriannu'n feirniadol ddata perthnasol ar berfformiad iechyd a diogelwch y Brifysgol;
- xiv. Adrodd yn flynyddol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Iechyd a Diogelwch a chymharu'r rhain yn erbyn normau perthnasol y sector lle mae hynny'n bosibl a chan roi ystyriaeth briodol i wybodaeth gyd-destunol arall;
- xv. Cadw holl Bolisiâu Iechyd a Diogelwch, Safonau Polisi a gweithdrefnau dan arolygaeth gyson fel bod deddfwriaeth bwysig a pherthnasol, Codau Ymarfer a chanllawiau priodol yn cael eu cymryd i ystyriaeth.
- xvi. Defnyddio asesiadau risg a chymau rheoli iechyd a diogelwch i hyrwyddo cynwysoldeb a chefnogi addasiadau rhesymol sydd, lle mae hynny'n ymarferol resymol, yn galluogi rhai ag anghenion ychwanegol i gymryd rhan a'u diogelu.
- xvii. Ymateb i unrhyw bandemig neu epidemig a rhoi systemau, trefniadau a chymau rheoli addas ar waith i liniaru a rheoli risg ac i ddiogelu iechyd a lles staff a myfyrwyr.

Cefnogir y Datganiad Polisi hwn gan ddogfen Cyfrifoldebau a Threfniadau sy'n manylu ar y swyddogaethau, y cyfrifoldebau, y drefniadaeth a'r trefniadau a sefydlir i gyflawni gofynion y Polisi hwn.